S4C

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Ebrill 2017

**Par. Y Darlun Mawr - Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru**

Annwyl Bethan

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch Pwyllgor am eich adroddiad treiddgar am ddarlledu a'r cyfryngau yng Nghymru, ac yn benodol eich argymhellion sy'n berthnasol i wasanaethau S4C.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr argymhellion eich Pwyllgor parthed ariannu S4C ac amlygrwydd gwasanaethau darlledu cyhoeddus ar Ganllawiau Rhaglenni Elegtroneg.

Mae eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror atom yn gofyn i ni roi gwybod i chi pe byddai gennym unrhyw bryderon am yr argymhelliad parthed gosod Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Hoffwn gadarnhau'n ffurfiol nad oes gennym unrhyw bryderon parthed yr argymhelliad, ac y byddwn yn falch o'r cyfle i drafod ein hadroddiad gyda'r aelodau.

Rwy'n edrych ymlaen at eich cyfarfod eto'n fuan pan gawn gyfle i drafod materion yn ymwneud â dyfodol S4C ymhellach gyda'ch Pwyllgor ar 18 Mai.

Yn gywir

HUW JONES
Cadeirydd S4C